

# **Cyngor Sir Ynys Môn**

## **Polisi Tân Bwriadol**

### **Fersiwn 1.0 Awst 2018**

#### **Am y polisi hwn**

Pwrpas y ddogfen hon yw cynorthwyo cydymffurfiaeth gyda Gorchymyn Ad-drefnu Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (fel cawsant eu diwygio). Dylai'r weithdrefn gynorthwyo i reoli diogelwch tân yn yr Awdurdod. Bwriad y weithdrefn yw lleihau'r perygl o dân bwriadol mewn eiddo sydd dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

Dylid darllen y weithdrefn hon ochr yn ochr â'r Weithdrefn Rheoli Diogelwch Tân.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Awst 2016	Creuwyd y ddogfen
	Awst 2017	Dim newidiadau
	Awst 2018	Dim newidiadau
	Awst 2019	Dim newidiadau
	Rhagfyr 2020	Dim newidiadau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar :	Mehefin 2021
Cynhelir yr adolygiad gan:	Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

### Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ([lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk](mailto:lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk))

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

# Cynnwys

## 1. Rhagarweiniad

Pwrpas y ddogfen hon yw cynorthwyo cydymffurfiaeth gyda Gorchymyn Ad-drefnu Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 2002 (fel cawsant eu diwygio). Dylai'r weithdrefn gynorthwyo i reoli diogelwch tân yn yr Awdurdod. Bwriad y weithdrefn yw lleihau'r perygl o dân bwriadol mewn eiddo sydd dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

Dylid darllen y weithdrefn hon ochr yn ochr â'r Weithdrefn Rheoli Diogelwch Tân.

## 2. Dyletswyddau dan y Rheoliadau

Yn ôl Gorchymyn Ad-drefnu Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005, rhaid i'r Person Cyfrifol gynnal risg asesiad o beryglon tân sylweddol. Tân bwriadol yw un o brif achosion tanau ac o'r herwydd dylid cynnal asesiad risg tân bwriadol.

Yn unol â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, rhaid i'r cyflogwr gynnal asesiad risg o beryglon sylweddol.

O ran y ddwy ddeddfwriaeth, rhaid gweithredu mesurau rheoli i roi sylw i'r risgiau o'r peryglon a nodwyd.

## 3. Mesurau Ataliol yn y Gweithle

Dylai person cymwys asesu pa mor agored yw'r eiddo i fgythiad tân sy'n cael ei gynnal'n fwriadol. Mae rhestr wirio i gynorthwyo gyda'r asesiad ynghlwm yn yr atodiad. Dylid cofnodi'r asesiad a'i gadw gyda dogfennau eraill sy'n ymwneud â diogelwch tân. Petai unrhyw ganfyddiadau o bwys yn dilyn yr asesiad, yna dylid cymryd camau priodol i leihau'r perygl o dân bwriadol.

Dylai'r sgôp ar gyfer y posibilrwydd o ddifrod tân gael ei leihau yn unol â'r rhagofalon diogelwch tân cyffredinol ar gyfer yr eiddo (gweler y Weithdrefn Diogelwch Tân). Dylid paratoi cynllun adfer ar ôl trychineb er mwyn lleihau'r colledion a'r amhariad ar ôl tân.

### Diogelwch

Lle mae hynny'n bosib, dylid atal neu rwystro pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn i'r safle a'r adeilad. Gellir gwneud hyn fel a ganlyn lle mae hynny'n bosibl:

Cael un fynedfa/allanfa i safle sy'n cael ei monitro ar gyfer ymwelwyr (nid yw hyn yn cynnwys allanfeydd tân neu allanfeydd argyfwng eraill).

Dylai ffensys, waliau a giatiau fod yn ddigon uchel ac yn ddigon cryf i gadw tresbaswyr allan.

Dylai drysau a ffenestri fod mewn cyflwr da a dylid eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Dylid defnyddio cloeon a chloeon clwt o safon dda.

Nodwch a chofnodwch y sawl sydd â goriadau i'r eiddo ac ewch ar ôl unrhyw oriadau sydd ar goll. Dylai'r sawl sydd â goriad roi gwybod i'w rheolwr llinell cyn gynted ag sy'n bosibl am unrhyw oriadau sydd wedi mynd ar goll.

### **Ceisiwch leihau'r cyfle i droseddwr gynnu tân drwy:**

- Dylai bylchau dan ddrysau fod mor fychan ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Dylai gosod cynwysyddion metel y tu mewn i flychau llythyrau.
- Ni ddylid pentyrru unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu storio yn ymyl ffensys neu waliau lle gellir eu rhoi ar dân o'r tu allan i'r safle.
- Rhodwch wybod i'r holl staff am y bygythiad posibl yn sgil tanau sy'n cael eu cynnu'n fwriadol.
- Gofynnwch i staff fod yn wylidwrus ynghylch unrhyw un na ddylai fod ar y safle a rhoi gwybod i'w rheolwr llinell am unrhyw weithgareddau amheus.
- Dylid archwilio cefndir unrhyw weithwyr newydd yn ystod y broses gyfweld am unrhyw hanes o gynnu tanau'n fwriadol.
- Yr un modd, dylid archwilio cefndir contractwyr am unrhyw hanes o gynnu tanau'n fwriadol.
- Dylid rheoli a monitro symudiad ymwelwyr y tu mewn i'r adeilad.

### **Diogelwch Tân**

Dylid sicio nad oes neb wedi ymyrryd gydag offer diogelwch tân megis diffoddwyr tân, pibellau ar riliau, larymau, synwryddion ac ati. Dylid sicio'r offer hwn yn unol â'r weithdrefn gyffredinol ar gyfer diogelwch tân.

### **Gwaith sicio ar ddiwedd y dydd**

Dylai'r person olaf i adael yr eiddo sicio:

- Drysau a ffenestri i sicrhau eu bod yn ddiogel
- Nad oes unrhyw ddeunyddiau hylosg yn cael eu gadael o gwmpas y lle
- Nad oes unrhyw bobl yn yr adeilad sydd heb awdurdod i fod yno
- Bod y larymau ymlaen
- Bod y goleuadau allanol ymlaen lle mae hynny'n ymarferol
- Bod unrhyw hylifau fflamadwy wedi cael eu cloi mewn storfa ddiogel

### **Gwybodaeth bellach**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar est 2811/2812/ 2507.

## ATODIAD

### RHESTR WIRIO AR GYFER DIOGELWCH

Achos	Enghraifft o risg isel	Enghraifft o risg uchel
Tresbasu	Dim achosion o dresbasu	Tresbaswyr yn bresennol yn gyffredin
Fandaliaeth	Dim adroddiadau ynghylch unrhyw achosion o fandaliaeth	Fandaliaeth gyson a chostus
Tresbaswyr	Cloeon da ar y ffenestri a'r drysau. System larwm tresbaswyr wedi ei chysylltu i le canolog	Cloeon gwael a dim system larwm i rybuddio am dresbaswyr
Tân Bwriadol	Dim achosion blaenorol o dân bwriadol yn yr adeilad neu'r ardal	Achosion diweddar o dorri i mewn neu gynnau tanau bwriadol yn y safle ei hun neu safle yn yr ardal
Diogelwch y safle	Anodd iawn i dresbaswyr ddynesu at y safle heb gael eu gweld	Adeiladau'n hawdd eu cyrraedd (e.e. manau gwan yn y ffin o gwmpas y safle neu dim ffens o gwbl)
Cyfleusterau allan o oriau	Dim problemau ac/neu achosion o dorri rheolau diogelwch yn sgil eu defnyddio y tu allan i oriau	Nifer o broblemau oherwydd defnydd y tu allan i oriau, risgiau arbennig (e.e. bariau, clybiau cymdeithasol)
Cyflwr ac edrychiad yr adeiladau	Yr adeiladau mewn cyflwr da heb unrhyw graffiti. Ochrau isaf adeiladau dros dro wedi cael eu cau.	Yr adeiladau mewn cyflwr gwael ac angen eu trwsio, problemau gyda graffiti a fandaliaeth. Ochrau isaf adeiladau dros dro yn agored sy'n golygu y gall sbwriel Gronni ac y gellir cynnu tanau'n fwriadol.
Encilfeydd ac iardiau mewnol	Dim yn rhan o ddyluniad yr adeilad neu wedi cael eu ffensio	Nifer o lefydd i dresbaswyr a phobl sydd am gynnau'n tanau'n fwriadol wneud hynny heb gael eu gweld
To	Ni ellir yn hawdd dringo ar y toeau oherwydd eu dyluniad, paent gwrth-ddringo neu ddyfeisiau eraill	Hawdd cael at y to a'r ffenestri uchaf (e.e. nodweddion adeiladu'n darparu ystolion naturiol, bondo isel, nodweddion yn y dirwedd)
Goleuadau Diogelwch	Goleuo'r holl fynedfeydd, llwybrau troed ac wynebâu adeiladau	Dim goleuadau neu oleuadau yn y lle anghywir
Gwyliadwraeth	Gwyliadwraeth effeithiol e.e. bod modd edrych dros yr adeilad o ffordd fawr a thai a Chamerâu Goruchwylio'n cadw golwg ar y fynedfa	Adeiladau anghysbell heb unrhyw wyliadwriaeth effeithiol
Systemau	System synhwyro awtomatig	Dim system awtomatig i synhwyro

synhwyro/atal tân	wedi ei chysylltu i le canolog. System ysgeintio yn ei lle	tân neu i atal tân
----------------------	---	--------------------